# Criminal Justice Board for Wales / Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

## Headlines: 20th June 2024

# Key headlines from the Criminal Justice Board for Wales meeting: June 20th, 2024

## General Overarching Headlines

### Overview of 2024-25 Progress and risk

- New Board meeting principles were agreed and will be adopted immediately – helping to maintain the executive nature of the Board, decision making and delivery of the Workplan.
- Strategic leads for each priority set out progress to date and any risks, highlights below:
  - **Anti-Racism Action Plan**: Resource has been sourced to support delivery of the action plan. The Board's September meeting is in person in Cardiff Castle and is focused on 'Anti-Racism Action Plan – 2 years on'. Duration of the meeting has been extended, 11.00-15.00 to allow for an effective event.
  - **Victims and Witnesses**: the Domestic Abuse Dashboard is being updated to monitor attrition across the criminal justice system. The Wales Domestic Abuse Best Practice Framework Review was signed off and changes to governance of domestic abuse across the criminal justice system will be implemented as a result. A Wales Family Court Disclosure protocol group has been established to operationalise the protocol in Wales. A survivor's event to discuss the issues relating to Family Court is being arranged for November 2024. Risk raised - capacity to manage the VAWDASV remote sites. Discussions are being progressed at a Wales level via the Steering Group.
  - **People who have offended**: LCJB's are completing their regional People who have Offended plans and will share with the Taskforce by 28th June. The local plans focus on their key offending issues and needs that were outlined in their local offending data packs provided to LCJB's in Dec 2023. A discussion on Wales' collective approach to reducing reoffending will be progressed between the People who have Offended Taskforce leads and PCC's. It was agreed that all LCJBs will receive regional updates about the people within their Integrated Offender Management (IOM) programme for discussion within their People who have Offending agenda item. At a Wales level, the interface between IOM Cymru and the Board will be taken forward and a proposal presented to Board in September. Risk raised - capacity to deliver LCJB People who have Offended plans was raised and will be progressed at the meeting between the Board's chair and chairs of LCJB's in July
  - **Early Intervention and Prevention**: The trauma informed trailblazers - HMCTS, HMPPS and all Welsh Police Forces - are on target to complete their self-reflection process by March 2025. The research into the impact on acquired brain injury on women in the criminal justice system will be shared at December's Board meeting.
  - **Performance insights:** The Board's Data Governance Model – that sets out the data collated, analysed and shared with LCJB to monitor performance of their workplan – was signed off. LCJBs asked to implement locally, ensuring appropriate space on the agenda for scrutiny. In March 2024, a Data literacy workshop was set up for LCJB chairs but postponed due to PCC elections. This will be rescheduled in 2024 to support implementation the model. The Board's data sharing agreement is underway. A final draft will be provided to Board, December 2024.

### Youth Justice – Spotlight

The spotlight covered three areas.

1. The existing youth justice governance arrangements in Wales was presented, which included outlining the statutory roles key partners play to deliver and oversee youth justice when required. The Board agreed its role was to establish a strong interface with Wales Youth Justice Advisory Panel, so the Board is updated on performance and challenges and to consider any Youth Justice 'asks'.
2. An overview of the Youth Justice system in Wales was presented and outlined, what's working – which included the reduction in reoffending rate in Wales for young people. And areas of challenge – which included, a continued an increase in offending rates of care experience children.
3. The role of the LCJBs within the youth justice space was discussed. The results from the survey with LCJBs outlined the different approach each LCJB takes to youth justice oversight. But all agree the benefits for ensuring youth justice is aligned to the LCJBs. A Wales working group will be set up to agree the role of LCJB within the context of Youth Justice across Wales. The proposal will be shared at September board.

### Steering Group

- The Group are reviewing their Terms of Reference.
- Wales Criminal Justice Communication Group chair and the Board's coordinator are working with Priority leads to agree what messages internally and externally they want to progress during 2024-25 to promote their work. Any actions will be added to the Boards 2024-25 workplan under the relevant priority. The updated Workplan will be shared for approval at September Board.

### LCJB updates

- Individual highlight report was shared with an additional Wales summary document that sets out the key issues discussed at LCJB to encourage bi-lateral collaboration between LCJB's on common issues.
- The Board's meeting in December will focus setting a new mandate and clear vision for the Board and LCJB's moving forward.

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

# Criminal Justice Board for Wales work programme: 2024-2025

## Delivering, Justice, Prevention, Fairness and Efficiency

### Victims & Witnesses

Ambitions:

- Compliance with the Victims' Code
- Reduce domestic abuse attrition
- Increase awareness of special
- measures
- Focus on family court

### People who have Offended

Ambitions:

- Bring together a picture of offending across Wales
- LCJBs will implement 12-month action plans to address local offending behaviours
- Address service gaps in Wales: Accommodation, neurodiversity, disabilities and mental health

### Use Evidence; Gather Insights; Oversee Performance

### Early Intervention & Prevention

Ambitions:

- LCJBs to deliver plan commitments
- A policy audit
- Improve data collection and sharing
- Develop an anti-racism training framework
- Increase ethnic minority representation

### Anti-Racism Action

Ambitions:

- LCJBs to deliver plan commitments
- A policy audit
- Improve data collection and sharing
- Develop an anti-racism training framework
- Increase ethnic minority representation

'Tackling Violence Against Women, Domestic Abuse and Sexual Violence' and 'Children and Young People' are two golden threads across all priorities.

# Penawdau allweddol o gyfarfod Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru:  Mehefin 20th, 2024

**Prif Benawdau Cyffredinol**

## Trosolwg ar gynnydd a risg 2024-25

- Cytunwyd ar egwyddorion newydd ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd a byddant yn cael eu mabwysiadu ar unwaith - gan helpu i gynnal natur weithredol y Bwrdd, penderfyniadau a darpariaeth y Cynllun Gwaith.
- Cafwyd adroddiad am gynnydd ac unrhyw risgiau hyd yma gan arweinwyr strategol pob blaenoriaeth, uchafbwyntiau fel a ganlyn:
  - **Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth**: Cafwyd adnodd i gefnogi cyflawni'r cynllun gweithredu. Bydd cyfarfod Bwrdd mis Medi yn y cnawd yng Nghastell Caerdydd a bydd yn canolbwyntio ar 'Y Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth - dwy flynedd yn ddiweddarach'.  Mae hyd y cyfarfod wedi cael ei ymestyn, 11:00 - 15:00 i hwyluso digwyddiad effeithiol.
  - **Dioddefwyr a Thystion**: Mae'r Dangosfwrdd Cam-drin Domestig yn cael ei ddiweddaru er mwyn monitro athreuliad ledled y system cyfiawnder troseddol.  Cymeradwywyd yr Adolygiad o Fframwaith Arfer Gorau Cam-drin Domestig Cymru ac o ganlyniad bydd newidiadau i waith llywodraethu cam-drin domestig yn cael eu rhoi ar waith ledled y system cyfiawnder troseddol. Mae grŵp protocol Datgeliadau Llys Teulu Cymru wedi cael ei sefydlu i roi'r protocol ar waith yng Nghymru. Mae digwyddiad i oroeswyr i drafod y problemau sy'n ymwneud â'r Llys Teulu yn cael ei drefnu ar gyfer mis Tachwedd 2024. Risg a nodwyd - y gallu i reoli safleoedd o bell VAWDASV Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar lefel Cymru trwy'r Grŵp Llywio.
  - **Pobl sydd wedi troseddu**: Mae byrddau cyfiawnder troseddol lleol (byrddau lleol) yn cwblhau eu cynlluniau Pobl sydd wedi Troseddu rhanbarthol a byddant yn cael eu rhannu gyda'r Tasglu erbyn 28 Mehefin.  Mae'r cynlluniau lleol yn canolbwyntio ar eu problemau ac anghenion troseddu allweddol a amlinellwyd yn eu pecynnau data troseddu lleol a roddwyd i fyrddau lleol ym mis Rhagfyr 2023.   Bydd trafodaeth ar ddull cyfunol Cymru o leihau ail droseddu yn cael ei datblygu rhwng arweinwyr y Tasglu Pobl sydd wedi Troseddu a chomisiynwyr yr heddlu a throsedd.  Cytunwyd y bydd pob bwrdd lleol yn derbyn diweddariadau rhanbarthol am y bobl o fewn eu rhaglen Rheoli Integredig Troseddwyr (IOM) i'w trafod fel eitem agenda Pobl sydd wedi Troseddu. Yng Nghymru, bydd y rhyngwyneb rhwng IOM Cymru a'r Bwrdd yn cael ei ddatblygu a bydd cynnig yn cael ei gyflwyno gerbron y Bwrdd ym mis Medi. Risg a nodwyd - y gallu i gyflawni cynlluniau Pobl sydd wedi Troseddu byrddau lleol - bydd yn cael ei ddatblygu yn y cyfarfod rhwng cadeirydd y Bwrdd a chadeiryddion y byrddau lleol ym mis Gorffennaf.
  - **Ymyrraeth gynnar ac atal:** Mae'r arloeswyr ystyriol o drawma - Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi a phob heddlu yng Nghymru - ar y trywydd iawn i gyflawni eu proses hunan-fyfyrio erbyn mis Mawrth 2025. Bydd yr ymchwil i effaith anaf caffaeledig i'r ymennydd ar fenywod yn y system cyfiawnder troseddol yn cael ei rannu yng nghyfarfod Bwrdd mis Rhagfyr.
  - **Cipolwg ar berfformiad:** Cafodd Model Llywodraethu Data'r Bwrdd - sy'n amlinellu'r data a gafodd ei gasglu, ei ddadansoddi a'i rannu gyda byrddau lleol i fonitro perfformiad eu cynllun gwaith - ei gymeradwyo.  Gofynnwyd i'r byrddau lleol ei roi ar waith yn lleol, gan sicrhau bod digon o le ar yr agenda ar gyfer craffu. Ym mis Mawrth 2024, trefnwyd gweithdy llythrennedd data i gadeiryddion byrddau lleol ond cafodd ei ohirio oherwydd etholiadau comisiynwyr yr heddlu a throsedd.  Bydd yn cael ei ail drefnu yn 2024 i gefnogi gwaith i weithredu'r model. Mae cytundeb rhannu data'r Bwrdd yn mynd rhagddo. Bydd drafft terfynol yn cael ei roi i'r Bwrdd, Rhagfyr 2024.

## Sbotolau - Cyfiawnder Ieuenctid

Roedd y sbotolau'n ymwneud â thri maes:

1. Cyflwynwyd y trefniadau llywodraethu cyfiawnder ieuenctid presennol yng Nghymru, a oedd yn cynnwys amlinellu'r rôl statudol allweddol y mae partneriaid yn ei chwarae i ddarparu a goruchwylio cyfiawnder ieuenctid yn ôl y gofyn. Cytunodd y Bwrdd mai ei swyddogaeth oedd sefydlu rhyngwyneb cadarn gyda Phanel Cynghorol Cyfiawnder Ieuenctid Cymru, fel bod y Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad a heriau ac i ystyried unrhyw 'ofynion' cyfiawnder ieuenctid.
2. Cyflwynwyd ac amlinellwyd trosolwg o'r system Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru, beth sy'n gweithio - gan gynnwys y gostyngiad mewn cyfraddau ail droseddu yng Nghymru ymysg pobl ifanc. Ac unrhyw heriau - a oedd yn cynnwys cynnydd parhaus mewn cyfraddau troseddu ymysg plant sydd wedi profi gofal.
3. Trafodwyd swyddogaeth y byrddau lleol o fewn y gofod cyfiawnder ieuenctid.  Roedd canlyniadau'r arolwg gyda byrddau lleol yn amlinellu'r dulliau gwahanol mae pob bwrdd lleol yn eu defnyddio i oruchwylio cyfiawnder ieuenctid. Ond mae pob un yn cytuno bod manteision i sicrhau bod cyfiawnder ieuenctid wedi'i alinio gyda'r byrddau lleol. Bydd gweithgor Cymru'n cael ei sefydlu i gytuno ar swyddogaeth byrddau lleol yng nghyd-destun cyfiawnder ieuenctid ledled Cymru.  Bydd y cynnig yn cael ei rannu yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

## Grŵp Llywio

- Mae'r Grŵp Llywio'n adolygu ei Gylch Gwaith.
- Mae cadeirydd Grŵp Cyfathrebu Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru a chyd-gysylltydd y Bwrdd yn gweithio gydag arweinwyr blaenoriaeth i benderfynu pa negeseuon y maent eisiau eu datblygu yn fewnol ac yn allanol yn ystod 2024-25 i hyrwyddo eu gwaith. Bydd unrhyw gamau gweithredu'n cael eu hychwanegu at gynllun gwaith 2024-25 y Bwrdd o dan y flaenoriaeth berthnasol. Bydd y cynllun gwaith hwnnw'n cael ei rannu i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

## Newyddion Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol

- Rhannwyd adroddiadau unigol ar y prif bwyntiau gyda dogfen ychwanegol, sef crynodeb o faterion Cymreig sy'n amlinellu'r prif bwyntiau a drafodwyd mewn byrddau lleol i annog cydweithredu dwyochrog rhwng byrddau lleol ar faterion cyffredin.
- Bydd cyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr yn canolbwyntio ar osod mandad newydd a gweledigaeth glir ar gyfer y Bwrdd a'r byrddau lleol yn y dyfodol.

Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
Criminal Justice in Wales

# Rhaglen waith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru 2024-2025
## Cyflawni, Cyfiawnder, Atal, Tegwch ac Effeithlonrwydd

### Dioddefwyr a Thystion

**Uchelgeisiau**

- Cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr
- Lleihau athreuliad cam-drin domestig
- Codi ymwybyddiaeth o fesurau arbennig Canolbwyntio ar lys teulu

### Pobl Sydd Wedi Cyflawni Troseddau

**Uchelgeisiau**

- Llunio darlun o droseddu ledled Cymru
- Bydd Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs) yn rhoi cynlluniau gweithredu 12 mis ar waith er mwyn mynd i'r afael ag ymddygiadau troseddol lleol
- Mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau yng Nghymru: Llety, niwroamrywiaeth, anableddau ac iechyd meddwl

### Use Evidence; Gather Insights; Oversee Performance

### Ymyrryd yn Gynnar ac Atal

**Uchelgeisiau**

- Mae sefydliadau cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o egwyddorion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), ac am arferion wedi'u llywio gan drawma
- Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs) - meddu ar y gwasanaethau cywir er mwyn ymyrryd yn gynnar ac atal troseddau a niwed
- Deall yr amlygrwydd i Anaf i'r Ymennydd i fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

### Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth

**Uchelgeisiau**

- Mae sefydliadau cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o egwyddorion Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs), ac am arferion wedi'u llywio gan drawma
- Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJBs) - meddu ar y gwasanaethau cywir er mwyn ymyrryd yn gynnar ac atal troseddau a niwed
- Deall yr amlygrwydd i Anaf i'r Ymennydd i fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol

'Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' a 'Plant a Phobl Ifanc' yw'r ddau brif linyn drwy'r holl flaenoriaethau.

Cyfiawnder Troseddol
yng Nghymru

**Criminal Justice
in Wales**